



## Amcan Llesiant 9

Byw'n Dda/Heneiddio'n Dda - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel

Dyma ein hymrwymiaidau a'n sylwadau cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2017/18.

Ymrwymiaidau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<b>A – Byddwn yn gweithredu Strategaeth Cymorth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin</b>		
Gweler Amcan Llesiant 1 - <i>Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd</i> - i gael ystod lawn o Gamau Gweithredu ar gyfer Cefnogi Teuluoedd.		
<b>B – Gwybodaeth, cyngor a chymorth am Ofal Cymdeithasol</b>		
Byddwn yn parhau i ddatblygu a gweithredu sut ydym yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, gan sicrhau bod gwybodaeth ar gael ac yn hawdd ei chyrchu, a chan gysylltu â system Dewis. <i>(Cam gweithredu rhif 12558)</i>	✓	Aeth gwefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd newydd yn 'fyw' ar 31 Mawrth '18. Mae'r lansiad swyddogol ddiwedd Ebrill yn dilyn ymgynghoriad /adborth pellach. Mae'r wefan newydd yn cydweddu â dyfeisiau symudol ac yn fwy rhyngweithiol, mae'n gysylltiedig â DEWIS Cymru ac i'r gwrthwyneb er mwyn ei chyrchu'n hawdd. Bydd pob atgyfeiriad newydd ar gyfer Anabledd / Pontio yn mynd drwy'r Tîm Atgyfeirio Canolog o 1 Mai 2018, a fydd yn symleiddio'r broses, yn creu un pwynt mynediad, ac yn sicrhau bod y trothwy yn gyson ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc (0-25) a atgyfeirir i'r Adran.
Byddwn yn adolygu ein gwasanaeth anabledd er mwyn sicrhau llwybrau a phontio di-dor o blant i oedolion. <i>(Cam gweithredu rhif 12717)</i>	✓	Mae gwaith wedi'i wneud gyda'r Tîm Anabledd Plant a'r Tîm Pontio fel bydd yr holl atgyfeiriadau newydd yn mynd drwy'r Tîm Atgyfeirio Canolog. Bydd hyn yn symleiddio'r broses atgyfeirio ac yn creu un pwynt mynediad er mwyn sicrhau bod y trothwy yn gyson ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc a atgyfeirir at yr adran. Bydd y newid hwn yn dechrau ar 1 Mai 2018.
<b>C - Cydlyniant Cymunedol</b>		
Byddwn yn gweithredu Cynllun Cyflawni Cenedlaethol newydd ar gyfer Cydlyniant Cymunedol am 2017/18. <i>(Cam gweithredu rhif 12609)</i>	✓	Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid yn ystod 2017/18 er mwyn cyflawni'r Pedwar Amcan yn y cynllun cyflawni:- Amcan 1: Gweithio ar lefel strategol i oresgyn rhwystrau i gynhwysiant ac integreiddio ar draws grwpiau sydd ar gyrion cymdeithas. Amcan 2: Gweithio ar lefel leol i oresgyn rhwystrau i gynhwysiant ac integreiddio ar draws grwpiau sydd ar gyrion cymdeithas. Amcan 3: Cefnogi mewnfydwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chymunedau sefydlog yn ystod y broses integreiddio. Amcan 4: Mynd i'r afael â gwahaniaethu, gelyniaeth, ac eithafiaeth.
<b>D – Hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant cymdogion</b>		
Byddwn yn clustnodi'r cryfderau a'r adnoddau mewn cymunedau sy'n gallu cyfrannu at hyrwyddo a chefnogi iechyd a llesiant. <i>(Cam gweithredu rhif 12610)</i>	✓	Mae'r cydgysylltwyr Cydnerthedd Cymunedol yn parhau i weithio gyda'u cymunedau lleol i lywio ein dealltwriaeth o asedau yn y gymuned sy'n gallu cyfrannu at lesiant y boblogaeth. Mae menter cymunedau sy'n cefnogi dementia yn dal i gael eu cyflwyno ar draws y Sir. Mae gwaith sylweddol

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		wedi'i wneud i sicrhau bod digon o asedau ac adnoddau i'r gymuned ar gael ar wefan Dewis. Mae digwyddiadau galw heibio ac ymuno wedi cael eu cynnal ar draws y gymuned, sydd wedi'u cynnal ar y cyd â phartner trydydd sector. Mae gennym bellach 503 o sefydliadau wedi'u nodi ar Dewis.
<p>Moderneiddio'r gweithlu i gefnogi'r gwaith o weithredu deddfwriaeth newydd yn ogystal ag amcanion strategol yr Adran Cymunedau (CSC) a Chynllun Tymor Canolig Integredig Hywel Dda. <i>(Cam gweithredu rhif 12611)</i></p>	✓	<p>Mae buddsoddiad y Gronfa Gofal Integredig a gafwyd drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Integredig wedi galluogi'r ddau sefydliad i ddatblygu a chadarnhau galluoedd a sgiliau'r gweithlu er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth newydd ac amcanion strategol. Rydym hefyd wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Tîm Dysgu a Datblygu i fuddsoddi mewn hyfforddiant perthnasol i staff.</p>
<p>Byddwn yn datblygu ymhellach adnoddau gwe Synnwyr Arian er mwyn gwella incwm, datblygu cynnyrch a'i farchnata. <i>(Cam gweithredu rhif 12612)</i></p>	✓	<p>Cafodd y contract ar gyfer gwerthiant masnachol y cynnyrch (Adnodd Moneywise ar y we) ei gymeradwyo gan y Gwasanaethau Cyfreithiol ac mae'n barod i gael ei farchnata. Cafodd y cynnyrch ei dreialu gan Awdurdod yng Ngogledd Cymru, ac roedd yr adborth yn rhagorol.</p> <p>Mae cytundeb lefel gwasanaeth wedi'i gadarnhau gyda'n partner marchnata, Canolfan Peniarth, fel y gallwn gynyddu ei farchnadwyedd. Rydym bellach mewn sefyllfa i ymgysylltu â darpar gwsmeriaid.</p>
<p>Byddwn yn defnyddio elw troseddau ar draws y gwasanaethau rheoleiddio i amddiffyn pobl. <i>(Cam gweithredu rhif 12613)</i></p>	✓	<p>Mae'r holl Wasanaethau Rheoleiddio o fewn yr Awdurdod wedi derbyn hyfforddiant ynghylch y Ddeddf Enillion Troseddau. Mae nifer o achosion Safonau Masnach ac Iechyd Anifeiliaid wrthi'n mynd drwy system y Llysoedd, ac mae rhagor o achosion wedi'u nodi'n rhai posibl dan y Ddeddf Enillion Troseddau. Mae sawl Awdurdod arall (8 ar hyn o bryd) wedi llofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth er mwyn i Safonau Masnach Sir Gaerfyrddin gynnal eu hymchwiliadau ariannol. Yn ei hanfod mae hyn yn golygu ein bod ni'n contractio fel darparwr ymchwiliad ariannol a achredwyd a buddion Enillion Troseddau cysylltiedig i Gyngor Sir Gaerfyrddin.</p>
<p>Byddwn yn datblygu amrywiaeth o opsiynau a fydd yn gwobrwyo tenantiaid am ofalu am eu cartref. <i>(Cam gweithredu rhif 12851)</i></p>	✓	<p>Ystyriwyd amrywiaeth o ddewisiadau yn dilyn adolygiad arfer gorau a sefydlwyd grŵp ffocws. Roedd eu hargymhellion yn sail i drafodaethau gyda fforymau Ymgynghorol Safon Tai Sir Gaerfyrddin a mwy, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr tenantiaid o bob rhan o'r sir. Lluniwyd amryw o gynigion a'u cyflwyno i grwpiau ffocws y tenantiaid cyn eu rhoi gerbron y Panel Ymgynghorol ynghylch Tai. Rydym yn ystyried ystod o opsiynau gan roi ffocws penodol ar y tenantiaid hynny sy'n cadw at eu cytundeb tenantiaeth. Y meysydd y canolbwyntir arnynt yw cyfrifon rhent lle mae pob taliad wedi'i wneud, gadael yr eiddo mewn cyflwr da, a chymhellion o ran annog Debyd Uniongyrchol.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<b>E – Cefnogi Cymunedau Mwy Diogel</b>		
<p>Byddwn yn cynnal ac yn ymdrechu i leihau ymhellach y lefelau trosedd isel, sydd eisoes ymhlith yr isaf yng Nghymru a Lloegr <i>(5.1.1.2) (Cam gweithredu rhif 12614)</i> <i>(Ffigurau 2016/17 - 8,677)</i></p>	✓	<p>Mae cynnydd sylweddol o 16.8% <b>(10,137 o droseddau)</b> wedi bod yn 2017/18 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef cyfanswm o 1,460 o droseddau ychwanegol. Mae'r Timau Plismona Bro Lleol wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor drwy gydol y flwyddyn i ddiogelu trigolion lleol. Mae grŵp 'Cymunedau Diogel a Theg' Sir Gaerfyrddin wedi parhau i gefnogi mentrau a anelwyd at amddiffyn pobl sy'n agored i niwed rhag troseddau. Mae pecynnau cam-drin domestig am ddim, a ariennir gan y grŵp 'Cymunedau Teg a Diogel' yn dal i gael eu cynnig i ddioddefwyr a hyfforddir gan swyddogion yr heddlu. Mae eitemau arbenigol megis larymau panig, synwryddion symud a brês drws wedi'u cynnwys yn y cit i dawelu meddyliau ac i helpu i gadw dioddefwr yn ddiogel yn eu cartref.</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod cymunedau lleol yn fwy hyderus ein bod yn mynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf iddynt ac yn cael effaith ar lefelau troseddu. <i>(Cam gweithredu rhif 12615)</i></p>	✓	<p>Rydym wedi parhau i hyrwyddo'r gwaith partneriaeth parhaus gydol y flwyddyn. Mae menter newydd wedi'i rhoi ar waith mewn ymgynghoriad â Hyrwyddwr Lluoedd Arfog y Cyngor, y Cynghorydd David Jenkins, a Grŵp Llywio Cyfamod Lluoedd Arfog Sir Gaerfyrddin (a'r grwpiau llywio ar draws ardal Heddlu Dyfed Powys) i helpu unigolion a gedwir yn y ddalfa sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog.</p> <p>Mae nifer o fentrau rhagweithiol wedi cael eu cyflwyno lle mae'r Cyngor a'r Heddlu'n gweithio'n agos gyda'i gilydd. Mae'r rhain wedi cynnwys cyfarfodydd partneriaeth gyda staff Gofal Cartref sy'n cefnogi plant mewn gofal. Mae hyn wedi cynnwys dosbarthu deunydd darllen Barnardo's ynghylch ymwybyddiaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant i gartrefi gofal, er mwyn i staff ei drafod â phlant mewn gofal i gynyddu ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac i leihau'r posibilrwydd o fod yn agored i niwed ac adroddiadau achos sydd ar goll.</p> <p>Hyfforddiant am ddim i yrwyr taccis i'w helpu i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed drwy godi ymwybyddiaeth o ecsbloetio plant yn rhywiol yn ogystal â'r holl agweddau eraill ar ddiogelu.</p> <p>Cynhaliwyd Diwrnod Gweithredu Aml-asiantaeth ar 17 Mai ar draws y Sir, a oedd yn cynnwys swyddogion yr heddlu ac adrannau arbenigol, timau'r Cyngor ar gyfer Safonau Masnach, Gorfodi Materion Amgylcheddol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â swyddogion mewnfudo a sefydliadau gwirfoddol. Y nod oedd targedu ac amharu ar weithgarwch troseddol, gan roi pwyslais penodol ar fynd i'r afael â'r materion sy'n peri'r pryder mwyaf i gymunedau h.y. Camddefnyddio</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>cyffuriau, cyflawnwyr cam-drin domestig a dioddefwyr sy'n agored i niwed a chodi ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a sylweddau seicoweithredol.</p> <p>Ymgyrch 'Yfed a Gyrru dros y Nadolig' yn ystod mis Rhagfyr.</p> <p>Hefyd, codwyd ymwybyddiaeth drwy'r cyfryngau lleol megis cyngor tymhorol ar atal troseddu; cyngor am alwyr diwahoddiad ; Annog trigolion i ymuno â'r 'Gwasanaeth Negeseua Cymunedol'; 'Diwrnod Rhuban Gwyn' sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod.</p>
<p>Byddwn yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol drwy weithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau lleol (5.1.1.3) (Cam gweithredu rhif 12616)</p> <p>(Ffigurau 2016/17 - 6,780)</p>	✓	<p>Gostyngodd nifer yr achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin yn ystod 2017/18 14.3% i <b>5,810</b> – gostyngiad o 970 o achosion o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.</p> <p>Mae partneriaid gan gynnwys adrannau'r Cyngor a thimau Plismona Bro Lleol wedi parhau i fonitro achosion o ymddygiad gwrth-gymdeithasol, gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i fynd i'r afael â phroblemau lleol a'u datrys. Roedd dull partneriaeth aml-asiantaeth "OP BANG" ar waith ar draws rhanbarth Sir Gaerfyrddin a De Cymru i leihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a'r peryglon cysylltiedig yn ystod cyfnod Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt. Roedd hyn yn cynnwys rhoi negeseuon addysg ac ymwybyddiaeth mewn ysgolion a thrwy'r cyfryngau lleol.</p>
<p>Byddwn yn lleihau nifer yr achosion o drais cysylltiedig ag alcohol. (Cam gweithredu rhif 12617)</p>	✓	<p>Mae grŵp gweithredu Trwyddedu sy'n cynnwys yr Heddlu ac adran drwyddedu'r Cyngor yn dal i roi sylw i unrhyw leoliadau sy'n achosi problem, ynghyd â safleoedd trwyddedig lle mae pryderon yn ymwneud ag anhrefn a throseddau cysylltiedig ag alcohol a sylweddau. Cynhaliwyd ymweliadau gorfodi trwyddedu ar y cyd drwy gydol y flwyddyn yn holl brif drefi Sir Gaerfyrddin, yn enwedig adeg Gemau Rygbi Rhyngwladol yr Hydref a'r Chwe Gwlad, adeg y Nadolig ac ym mis Mehefin, fel rhan o Wythnos Genedlaethol Trwyddedu.</p> <p>Cafodd cyfarfodydd 'Bihafiwch neu cewch eich banio' eu cynnal i sicrhau bod eiddo trwyddedig yn ceisio atal unigolion allai fod yn dreisgar rhag cael mynediad i eiddo trwyddedig.</p> <p>Cynhaliwyd digwyddiad allgymorth ymwybyddiaeth o alcohol hefyd yn Nhrostre, Llanelli ar 24 Chwefror mewn partneriaeth â Cyfle Cymru, Drug Aid a grwpiau cymorth Cam-drin Domestig, gan roi cyngor a mynediad i wasanaethau.</p> <p>Mae ymgyrch Addewid Paul yn dal i gael cymorth ac i godi ymwybyddiaeth o beryglon trais cysylltiedig ag alcohol. Dioddefodd Paul Pugh ymosodiad treisgar yn Rhydaman 10 mlynedd yn ôl.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn lleihau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. <i>(Cam gweithredu rhif 12618)</i></p>	<p>✓</p>	<p>Mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal rhanbarthol yn dal i oruchwylio camddefnyddio sylweddau yn strategol ar draws ardal Hywel Dda, gan gomisiynu ystod o wasanaethau. Mae'r Bwrdd wedi nodi nifer o feysydd ffocws ac amlinellir y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn isod:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae protocol rhannu gwybodaeth yn cael ei ddatblygu ar gyfer achosion o wenwyno nad ydynt yn angheuol, ynghyd â siart llif y llwybr i'w ddilyn. Bydd hyn yn helpu i wella ymatebion sefydliadau a phartneriaethau i ddigwyddiadau o'r fath.</li> <li>• Cynhelir adolygiad o raglen atal ysgolion gan is-grŵp Plant a Phobl Ifanc/Atal y Bwrdd Cynllunio Ardal, gan fapio'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan yr holl ddarparwyr gwasanaeth a datblygu rhaglen atal priodol i oedran ranbarthol i gyd-fynd â Rhaglen Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan yr Heddlu.</li> <li>• Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cael ei sefydlu i fynd i'r afael â'r broblem o nodwyddau wedi'u taflu yn Llanelli. Bydd y grŵp hwn yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth a hyrwyddo gwaredu nodwyddau'n ddiogel.</li> <li>• Ymhlith y blaenoriaethau ychwanegol sy'n cael sylw yw proffil newidiol sylweddau a ddefnyddir, gan gynnwys Sylweddau Seicoweithredol newydd a meddyginiaeth ar bresgripsiwn, newidiadau o ran argaeledd e.e. cyflenwi drwy lwybrau rhyngwyd a gwerthu cyffuriau wedi'u targedu, pobl hŷn ac alcohol, niwed i'r ymennydd yn gysylltiedig ag alcohol, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n digwydd ar yr un pryd, a thargedu negeseuon hyrwyddo iechyd ac atal i oedolion a phobl ifanc.</li> </ul>
<p>Byddwn yn ymateb i Adroddiad Diogelwch Cymunedol yng Nghymru Swyddfa Archwilio Cymru, a'i argymhellion i Lywodraeth Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ac Awdurdodau Lleol. <i>(Cam gweithredu rhif 12619)</i></p>	<p>✓</p>	<p>Cafodd adroddiad 'Diogelwch Cymunedol yng Nghymru' Swyddfa Archwilio Cymru ei ystyried yn nghyfarfod grŵp 'Cymunedau Teg a Diogel' y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2017, ond nodwyd nad oedd hi'n glir pa gamau oedd yn ddisgwyliedig gan Bartneriaethau. Rhoddwyd gwybod i'r grŵp y byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o ran diogelwch cymunedol ynghylch sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio ar hyn yng Nghymru ac o ran datblygu gweledigaeth uchelgeisiol a rennir, a hynny o ganlyniad i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Sefydlwyd Grŵp Goruchwylio i gyflawni'r gwaith hwn, gyda'r nod o riportio eu canfyddiadau i Ysgrifennydd y Cabinet erbyn mis Tachwedd 2017. Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn aelod o'r Grŵp Goruchwylio. Gofynnwyd i bartneriaid diogelwch cymunedol gyfrannu at yr adolygiad a bu i'r Grŵp Cymunedau</p>



Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>Teg a Diogel gyflwyno ymateb i Lywodraeth Cymru ym mis Awst.</p> <p>Cyhoeddwyd adolygiad Llywodraeth Cymru o'r enw 'Gweithio gyda'n gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel' ar 12 Rhagfyr 2017, gyda chynnig i sefydlu rhaglen waith hirdymor mewn partneriaeth â phartneriaid a rhanddeiliaid, i roi gweledigaeth newydd ac uchelgeisiol ar waith ar gyfer cydweithio mewn cymunedau mwy diogel. Bydd y rhaglen Cymunedau Mwy Diogel yn cynnwys datblygu system gyfiawnder Gymreig, sefydlu rôl arweinyddiaeth fwy effeithiol ar gyfer Llywodraeth Cymru o ran gwaith partneriaeth diogelwch cymunedol, datblygu canllawiau newydd penodol i Gymru ar gyfer partneriaethau ac ystyried sut i sicrhau cyllid. Roedd partneriaid yn cytuno nad oes ffordd glir ymlaen o ran cyflawni'r rhaglen, ac fe'i trafodwyd hefyd gan Reolwyr Diogelwch Cymunedol a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ym mis Chwefror, a gytunodd i godi hyn gyda'r Grŵp Goruchwyllo. Disgwylir mwy o wybodaeth.</p>
<p>Byddwn yn sefydlu ac yn hyrwyddo ymagwedd "busnes pawb" at ddiogelu yn Sir Gaerfyrddin drwy weithio gyda chydweithwyr awdurdod lleol ac asiantaethau partner. <i>(Cam gweithredu rhif 12621)</i></p>	✓	<p>Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi cynnal cyfres o gamau i sefydlu ymagwedd busnes pawb at Ddiogelu ar draws y sir. Rydym wedi lleoli Swyddog Diogelu penodedig yn y tîm Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i sicrhau bod pryderon Diogelu yn cael eu rheoli'n briodol gan y person iawn ar yr adeg iawn. O ganlyniad mae'r sefydliad cyfan yn cymryd ymagwedd fwy rhagweithiol at gadw pobl yn ddiogel. Yn ogystal â hyn, mae llawer o waith wedi'i wneud gydag asiantaethau partner i sicrhau bod ymagwedd gyson yn cael ei harddel at ddiogelu a bod trafodaeth reolaidd yn cael ei chynnal rhwng yr asiantaethau. Mae'r Grŵp Gweithredol Lleol yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cyfrifoldebau'r Asiantaeth ac i nodi arfer da. Bydd y grŵp hwn hefyd yn nodi ac yn trafod unrhyw rwystrau gweithredol sy'n effeithio ar drefniadau diogelu presennol.</p>
<p>Byddwn yn adolygu contractau trydydd sector i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a thrawsnewid gwasanaethau ym maes iechyd meddwl ac anabledd dysgu. <i>(Cam gweithredu rhif 12716)</i></p>	✓	<p>Rydym yn parhau i weithio gyda'r trydydd sector mewn perthynas â phrosiectau trawsnewid iechyd meddwl ac anableddau dysgu ac wrth ail-lunio gwasanaethau dydd anableddau dysgu. Y ffocws yn 2018/19 yw ymgysylltu'n fwy rhagweithiol gyda'r trydydd sector i ddatblygu ein hymagwedd strategol at al ac ymyrraeth gynnar. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr a phenodi Swyddog Asesu a Gwybodaeth i Ofalwyr sy'n gweithio yn y trydydd sector, gan weithio'n agos gyda'n gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth.</p>
<p>Byddwn yn sicrhau bod nifer y dyddiau calendr, ar gyfartaledd, a gymerir i atgyweirio pob golau stryd diffygiol yn parhau i fod yn llai na 4 diwrnod <i>(THS/009)</i></p>	x	<p><b>Canlyniad 2017/18 - 6.41 diwrnod.</b> Nid yw hyn yn cyrraedd y targed ac mae'n llai oherwydd y bu i gyfnod o dywydd garw a gwyntoedd uchel rwystro'r Llwyfan Gwaith Dyrchafedig Symudol rhag gweithio'n</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p><i>(Canlyniad 2016/17 - 4.26 diwrnod / Targed 2017/18 – 4 diwrnod)</i></p>		<p>ddiogel yn gynharach yn y flwyddyn ariannol. Yn ogystal, bu problem allanol o ran cyflenwi lampau Sodiwm Pwysau Isel lle roedd yr amser ar gyfer archebion wedi cynyddu o oddeutu 1 wythnos i 6 mis yn ystod chwarter 1. I geisio lliniaru'r mater hwn wrth fynd ymlaen, gosodwyd archebion mawr gennym ar sail defnydd o lampau yn y gorffennol, i gadw mwy wrth gefn yn ein storfeydd. Roedd gwelliant enfawr yn y chwarter diwethaf a'r ffigur oedd 4.57 o ddiwrnodau.</p>